

JONES, JOHN (1786 - 1865), argraffydd a dyfeisiwr

Enw: John Jones

Dyddiad geni: 1786

Dyddiad marw: 1865

Priod: Jane Jones (née Evans)

Plentyn: Evan Jones

Plentyn: Owen Evans-Jones

Plentyn: Edward Jones

Rhiant: Jane Jones

Rhiant: Ismael Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: argraffydd a dyfeisiwr

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Peirianeg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: Gerald Morgan

Bedyddiwyd 7 Mai 1786, yn fab i Ismael Davies a'i wraig Jane (yr oedd Ismael yn fab i [Dafydd Jones](#), Trefriw (1708? - 1785). Wedi marwolaeth [Dafydd Jones](#) yn 1785, parhaodd Ismael Davies gyda gwaith argraffu ei dad ym Mryn Pyll, Trefriw. Yn ôl traddodiad y teulu, prentisiwyd John Jones yn of, ond dysgodd grefft argraffydd hefyd, ac o 1810 ymlaen y mae gwelliant amlwg yn safon cynnyrch gwasg Trefriw y gellir ei briodoli i waith John, er na welir ei enw wrth y cynnyrch (heblaw am englynion cyfarch) hyd 1817, pan fu farw Ismael. Priododd Jane Evans yn 1824; yn 1825 symudodd i 29, Station Road, Llanrwst, ac oddi yno yn 1836 i 30, Heol Dinbych. Bu'n cadw siop lyfrau a phapur, a gwneud llawer o fân waith argraffu 'r fro. Rywbryd (? cyn 1817) fe adeiladodd dair gwasg argraffu ar batrwm a elwir yn Wasg Ruthven yn ôl enw'r dyfeisiwr cyntaf, Alexander Ruthven, a gwnâi ei holl waith ar y gweisg hyn. Dysgodd hefyd sut i lunio teip argraffu, a defnyddiai lawer o'i lythrennau ei hun weddill ei oes. Dyfeisiodd hefyd, tua diwedd ei oes, beiriant torri papur. Y mae'r peiriant hwn ac esiamplau o'i deip yn Amgueddfa Sain Ffagan, ynghyd â llawer o'r lluniau a ddefnyddiwyd yn y baledi; y mae un o'r gweisg yn Amgueddfa Gwyddoniaeth South Kensington. Yr oedd yn un o'r argraffwyr baledi mwyaf toreithiog, ac un o'i lyfrwerthwyr teithiol oedd [Thomas Williams](#), 'Capelulo'. Gwasg Trefriw/Llanrwst oedd yn gyfrifol am gyfres hir o Almanaciau yn dwyn y teitl ' *Y Cyfaill ...* Y mae'r argraffnod yn honni eu bod wedi eu hargraffu yn Nulyn, ond ystryw i osgoi'r dreth oedd hynny. Pan ddaeth y dreth i ben yn 1834, argraffwyd yr almanaciau yn agored yn Llanrwst. Argraffodd John Jones waith awduron cyfoes pwysig megis [William Williams](#) ('Caledfryn'), [Robert Jones](#), Rhoslan, [Ieuan Glan Geirionnydd](#), [John Elias](#), [Gwilym Hiraethog](#), yn ogystal â chlasuron megis *Drych y prif oesoedd*, *Egluryn ffraethineb* a nifer o weithiau [Twm o'r Nant](#). Yr oedd hefyd yn gyfrifol am nifer o gylchgronau a llawer o lyfrynau od, difyr neu annisgwyl, megis fersiwn o *Robinson Crusoe*, *Hanes Judas Iscariot*, *Hanes y lleuad*, *Bywyd Turpin leidr* a *Faunula Grustensis*, yn ogystal â *Gwaith Aristotle* (a argraffwyd gyntaf oll gan ei frawd Robert (1803 - 1850) yng Nghonwy yn 1826; bu Robert yn argraffu hefyd yn Mhwlheli a Bangor). Cynhyrchodd John Jones y llyfrau lleiaf a wnaed yn Gymraeg erioed, ond ei gampweithiau argraffu oedd *Mawl yr Arglwydd* [John Ellis](#) (1816) a *Gronoviana* (1860), sef yr argraffiad cyntaf o holl waith [Goronwy Owen](#). Casglwyd y gwaith gan ei fab Edward (1826 - 1892), tad [Griffith Hartwell-Jones](#), awdur *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (1915). Yr oedd John Jones, a oedd yn gwmniwr diddan a diwylliedig, yn barddoni dan yr enw 'Pyll'. Wedi ei farwolaeth ar 19 Mawrth 1865, parhaodd ei fab Owen Evans-Jones y fusnes, heb lawer o frwdfrydedd, hyd ei farwolaeth yn 1887. Wedi hynny bu ym meddiant ei yr J. J. Lloyd hyd 1935, pan gaewyd y siop, wedi i'r teulu fod yn argraffwyr tros bum cenhedlaeth o 1776 hyd 1935. Yr oedd Evan Jones (1830 - 1918), ail fab John Jones, yn argraffydd ym Mhorthmadog.

Awdur

Gerald Morgan

Ffynonellau

Gerald Morgan, *Y dyn a wnaeth argraff: bywyd a gwaith yr argraffydd hynod John Jones, Lanrwst* (Llanrwst 1982)

ymchwil bersonol

Archifau LIGC: [NLW MS 12004B-NLW MS 12021B](#)

Darllen Pellach

Coflein: [LLANRWST PRINTING OFFICE](#)

Erthygl Wicipedia: [John Jones](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q19599159](https://www.wikidata.org/wiki/Q19599159)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

